

## Termau sy'n gysylltiedig â thai

### Tai fforddiadwy

Er ei fod yn derm a ddefnyddir yn aml gan lywodraethau, mewn gwleidyddiaeth, ac yn y cyfryngau, nid oes diffiniad safonol o'r term 'tai fforddiadwy' ar gael. Tai sy'n cael eu darparu ar rent neu ar drefniant rhanberchenogaeth ar gyfer pobl leol na allant fforddio prynu tŷ ar y farchnad agored. Ystyrir fod y tai'n fforddiadwy i bobl a chanddynt incwm sy'n 'is na'r cyfartaledd', yn dibynnu ar yr ardal ac ar ffactorau eraill.

### Tenantiaeth Byrddaliol Sicr (AST)

Mae'r math yma o denantiaeth yn rhoi hawl i denantiaid fyw mewn eiddo am gyfnod penodedig o amser, cyn belled ag y bônt yn cadw at delerau eu cytundeb tenantiaeth. Ar ddiwedd y cyfnod penodedig hwn, gellir terfynu'r denantiaeth naill ai gan y landlord neu gan y tenant, neu gallant gytuno i'w hadnewyddu am gyfnod penodedig arall.

### Tenantiaeth sicr

Ers mis Ionawr 1989, mae pob tenant newydd i'r cymdeithasau tai wedi bod yn denantiaid sicr. Mae ganddynt lai o hawliau, a'r rheiny'n wahanol, o gymharu â'r tenantiaid diogel.

### Tlodi tanwydd

Mae aelwyd yn dioddef tlodi tanwydd os yw mwy na 10% o'u holl incwm yn cael ei wario ar filiau tanwydd.

### Papur gwyrdd

Dogfennau ymgynghorol a gynhrychir gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Gall gwahanol randdeiliaid roi eu barn a'u hadborth ar gynigion mewn papur gwyrdd.

## Tŷ Amlfeddiannaeth (HMO)

Gallai fod yn un o'r rhain:

- Tŷ sydd wedi'i rannu'n fflatiau un ystafell
- Tŷ sy'n cael ei rannu lle mae gan y preswylwyr gytundebau tenantiaeth ar wahân (yn cynnwys myfyrwyr sy'n rhannu tŷ)
- Hostel nad yw'n cael ei ddefnyddio ond ar gyfer gwyliau
- Llety 'Gwely a brecwast' nad yw'n cael ei ddefnyddio ond ar gyfer gwyliau.

## Tai yn Gyntaf

Model neu ddull o fynd i'r afael â digartrefedd yw Tai yn Gyntaf. Mae'r model – a ddatblygwyd yn UDA yn yr 1990au – wedi'i dargedu ar gyfer pobl ddigartref a chanddynt anghenion cymorth niferus a chymhleth. Mae'n rhoi mynediad at gartref parhaol fel man cychwyn i helpu pobl fynd i'r afael â'u hanghenion eraill yn ogystal. [Mae Tai yn Gyntaf](#) yn seiliedig ar set o egwyddorion, sydd wedi cael eu haddasu gennym ni i gyd-fynd â'r cyd-destun Cymreig.

## Deddfwriaeth

Gair arall am ddeddf, neu set o ddeddfau.

## Aelodau o'r Senedd/AS(au)

Mae'r Senedd yn cynnwys 60 o Aelodau etholedig. Caiff 40 eu dewis i gynrychioli etholaethau unigol, a chaiff 20 eu dewis i gynrychioli pum rhanbarth Cymru. Mae'r Aelodau o'r Senedd – AS(au) – hyn yn cyfateb i ASau (Aelodau Seneddol) sy'n cael eu hethol ledled y DU. Gall y Senedd ddeddfu ar feysydd o'r gyfraith a gaiff eu hystyried yn 'fodelau cadw pwerau' neu'n ddatganoledig – hynny yw, mae gan Gymru reolaeth drostynt. Mae enghreifftiau'n cynnwys tai ac ieuchyd. Mae rhai meysydd o'r gyfraith yn cael eu rheoli ar lefel y DU – materion milwrol, er enghraifft, ynghyd â pholisi treth.

## Hawl i brynu

Os ydych chi wedi bod yn denant i'r cyngor am leiafswm penodol o amser (yn dibynnu ar pryd y dechreuodd eich tenantiaeth) mae gennych hawl i brynu'ch cartref – os nad ydych chi'n byw mewn tai gwarchod neu unrhyw dai eraill sy'n arbennig o addas ar gyfer pobl hŷn. Mae rhai mathau eraill o denantiaeth hefyd yn gymwys ar gyfer y cynllun Hawl i Brynu.

## Landlord Cymdeithasol Cofrestredig/LCC (RSL)

Sefydliad nid-er-elw, sydd fel arfer yn gymdeithas tai.

## Diogelu

Mae diogelu'n golygu gwarchod iechyd, lles a hawliau dynol dinasyddion, a thrwy hynny'n eu galluogi i fyw'n rhydd o unrhyw niwed, cam-drin ac esgeulustod. Mae'n rhan annatod o ddarparu gofal iechyd o safon uchel. Mae diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion yn gyfrifoldeb ar y cyd.

## Pwyllgorau'r Senedd

Mae pwyllgorau'r Senedd yn craffu ar wariant a pholisïau Llywodraeth Cymru, gan ddwyn Gweinidogion i gyfrif ac archwilio deddfwriaeth arfaethedig. Enghreifftiau - [Equality, Local Government and Communities Committee](#) a [Local Government and Housing Committee](#).

## Llety â chymorth

Llety a fwriedir ar gyfer pobl a chanddynt ystod o anghenion cymorth. Mae'n cynnig gwasanaethau cymorth i allogi preswylwyr i fyw'n annibynnol. Fel arfer bydd y person yn cael ei atgyfeirio gan yr awdurdod lleol.

## Newid systemau

Mae 'newid systemau' yn cyfeirio at wahanol agweddau o 'system' (er enghraifft, y dull cyfan o fynd i'r afael â digartrefedd a gymerir mewn ardal benodol) yn newid tuag at ganlyniadau a nodau newydd.

## Papur gwyn

Papur sy'n gosod allan ddarn arfaethedig o gyfraith ac yn gwahodd ymatebion ymgynghorol.

### **Senedd ieuenctid**

60 o bobl ifanc rhwng 11–18 oed sydd wedi cael eu hethol i gynrychioli pobl ifanc yng Nghymru.